Prifysgol Bangor

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Dyddiad : 15 Hydref 2009

Presennol : Dr. Llion Jones (Cadeirydd), Dr. Andrew Davies, Mr. Huw Ellis, Mr. Geraint George, Mr. Aled Griffiths, Mrs. Bethan Wyn Jones, Miss Eirian Jones, Miss Sioned Medi Jones, Dr. Gwyn Lewis, Mrs. Delyth Murphy, Dr. Sara Parry, Dr. Robert Pope, Mr. Stephen Rees, Dr. Paula Roberts, Yr Athro Gerwyn Wiliams, Miss Sharyn Williams, Mr. Emyr Roberts (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Dr. Eryl Wyn Davies, Dr. Jason Walford Davies, Mr. Dewi Jones, Mr. Ifor Gruffydd, Dr. Lowri Hughes, Mr. Bryn Jones, Yr Athro Densil Morgan, Dr. Enlli Môn Thomas, Dr. Eifiona Thomas Lane, Yr Athro Deri Tomos, Dr. Catrin Haf Williams, Mrs. Gwenan Williams, Dr. Prysor Williams, Miss Sarah Williams, Dr. Einir Young.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd Mr. Huw Ellis, Miss Eirian Jones a Miss Sharyn Williams i'w cyfarfod cyntaf o'r Ysgol.

2. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Ysgol a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2009 fel cofnod cywir.

3. MATERION YN CODI

(i) Eitem 4 Neuadd John Morris Jones

Lluniwyd memorandwm o ddealltwriaeth rhwng y Brifysgol a'r myfyrwyr ac sydd yn barod i'w arwyddo. Mae'r Adran Ystadau wedi comisiynu astudiaeth ddichonolrwydd i edrych ar ymuno adeiladau Tegfan a Bryn Dinas. Mae'r holl fater yn nwylo'r Adran Ystadau a gobeithir symud i'r safle newydd ym Medi 2010.

(ii) Tystysgrif Sgiliau Iaith

Adroddwyd bod y Cyngor Cyllido ar gais Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut i gyflwyno Tystysgrif Cymhwysedd Cyfrwng Cymraeg ar gyfer hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Yn y cyfamser, mae'r Grŵp

Sector wedi sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i fwrw 'mlaen a'r gwaith o gyflwyno Tystysgrif Sgiliau Iaith i fyfyrwyr yn gyffredinol. Pwysleisiodd y cadeirydd y bydd angen cydlynu gofalus ar y naill ddatblygiad a'r llall i osgoi dyblygu ymdrechion.

(iii) Y Coleg Ffederal

Adroddwyd bod yr amserlen ar gyfer sefydlu Cyngor Cysgodol ar gyfer y Coleg Ffederal wedi llithro. Y bwriad oedd ei sefydlu erbyn diwedd Medi, ond hyd yma, ni chafwyd unrhyw ddatblygiadau.

(iv) Eisteddfod Y Bala

Adroddwyd bod stondin y Brifysgol yn Eisteddfod Y Bala eleni wedi bod yn llwyddiannus. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl staff a fu'n gwasanaethu ar y stondin, ynghyd â chyfraniadau'r ysgolion academaidd i weithgareddau ar y stondin ac yn y babell wyddoniaeth.

Gofynnwyd i'r aelodau ddechrau meddwl am syniadau ar gyfer Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol yn 2010.

(v) Adroddwyd bod yr Is-ganghellor a Dr. Ioan Matthews wedi cyfeirio i'r Cyngor Cyllido bryder y Brifysgol ynglŷn â'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a'r angen i ymchwil cyfrwng Cymraeg gael ei sgorio mewn modd sy'n sicrhau nad yw yn cael ei ddibrisio.

4. ADRODDIAD TASIG

Cyflwynwyd crynodeb gan y Cadeirydd o drafodaethau Grŵp Tasg Strategaeth yr Iaith Gymraeg yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Mai a 15 Mehefin 2009.

- Adroddwyd bod dwy Ysgoloriaeth wedi'u gohirio tan fis Hydref 2010 ac mae cylchlythyrau ar gyfer ceisiadau 2010/11 wedi'u cylchredeg gyda dyddiad cau o 20 Tachwedd.

- Nodwyd bod ymateb wedi'i lunio gan y Brifysgol i Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Cynulliad.

5. ADOLYGU'R WYTHNOS GROESO A GWEITHGARWCH HYRWYDDO

Adroddwyd bod angen cloriannu'r ymdrechion a wnaed eleni i ddenu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i'r Brifysgol. Gwnaethpwyd ymdrech neilltuol eleni gyda dosbarthu Llyfryn Modiwlau Cyfrwng Cymraeg ac e-bost i bob myfyriwr yng Nghymru cyn iddynt gychwyn yn y Brifysgol. Chwaraeodd Undeb y Myfyrwyr a'r arweinwyr cyfoed ran flaenllaw mewn llawer o'r Ysgolion. Roedd yr Undeb hefyd wedi darparu dwy erthygl berthnasol yn y papur 'Llef' ac wedi dosbarthu holiadur. Roedd oddeutu 300 o

fyfyrwyr wedi dangos diddordeb yn y gymdeithas ar gyfer dysgwyr Cymraeg, Cymdeithas Llywelyn.

Holodd Mr. Rees a fyddai'n bosib cael blwch yn y ffurflen UCAS yn gofyn am wybodaeth am allu ieithyddol darpar fyfyrwyr.

Nododd Mr. Griffiths bod angen ail-edrych ar leoliad y ffair fodiwlau er mwyn gallu adnabod y myfyrwyr cyfwng Cymraeg ar wahân i weddill y myfyrwyr. Codwyd y cwestiwn o ariannu'r bwrsariaethau a beth oedd ffynhonell yr arian. Yn ogystal teimlwyd y dylai myfyrwyr ôl-radd gael y cyfle i ymgeisio am fwrsariaethau cyfrwng Cymraeg. **Cytunwyd** y dylid trafod y mater yma yng nghyfarfod nesaf TASIG. (Gweithredu LLJ).

6. Y PORTH

Cafwyd cyflwyniad gan Mrs. Bethan Wyn Jones, Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth am ddarpariaeth newydd 'Y Porth'. Fe'i disgrifir fel platfform cenedlaethol e-ddysgu cyfrwng Cymraeg i'r Sector Addysg Uwch ac fe'i lansiwyd yn yr Eisteddfod yn Y Bala. Bydd yn lwyfan e-ddysgu ar gyfer staff a myfyrwyr yn yr holl sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ac yn llwyfan ar gyfer rhai adnoddau cyhoeddus.

Eleni mae modiwl gan Ysgol y Gyfraith yn cael ei gyflwyno i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth drwy'r Porth. Ar hyn o bryd mae'r Porth yn cynnwys 8 adnodd penodol a 3 modiwl.

O hyn allan, bydd pob un cais am broject cenedlaethol yn cael ei wneud yng nghyd-destun bodolaeth y Porth ond bydd angen trafodaeth bellach ar rai o oblygiadau'r cynllun megis hawlfraint ar y modiwlau a sut y gellir ad-dalu y sefydliadau sy'n darparu'r deunydd.

7. RHAGLEN DATBLYGU STAFF 2009/2010

Derbyniwyd er gwybodaeth Rhaglen Hyfforddiant a Datblygiad Staff ar gyfer 2009/2010. Mae nifer o ddatblygiadau arwyddocaol wedi digwydd ym maes Datblygu Staff dros y 2 flynedd ddiwethaf yn cynnwys darparu llwybr cyfan cyfrwng Cymraeg i gymhwyster y tHE. O ran y gweithdai cenedlaethol, bydd mwy ohonynt yn cael eu darparu ym Mangor eleni.

8. CADEIRYDDIAETH YR YSGOL

Adroddodd y Cadeirydd y dymunai wahodd enwebiadau ar gyfer cadeiryddiaeth yr ysgol yn y gobaith o allu sicrhau cadeirydd o blith aelodau'r staff academaidd a oedd ynghlwm wrth y gwaith o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd hi'n gwbl angenrheidiol i'r cadeirydd fod yn aelod o'r staff academaidd a bod rhai manteision i'r drefn bresennol.

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn parhau yn y swydd hyd at diwedd y flwyddyn academaidd ac ail-ystyried y sefyllfa bryd hynny.

9. DATHLIADAU 125 MLWYDDIANT Y BRIFYSGOL

Adroddwyd gan yr Athro Gerwyn Wiliams, fel rhan o ddathliadau 125 mlwyddiant y Brifysgol, bydd dathliad o gyfraniad Ysgol y Gymraeg yn cael ei gynnal ym Mhrif Ddarlithfa'r Celfyddydau am 10.00 a.m. dydd Sadwrn 17 Hydref 2009.

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Ysgol am 2.15 p.m., dydd Mercher, 27 Ionawr, 2010 yn Siambr y Cyngor.